

Date · Dyddiad 21 Gorffennaf 2017
Your ref · Eich cyfeirnod
My ref · Fy nghyfeirnod KEH/HJ/MW
Telephone · Ffôn 01437 775861
Email · Ebost Kate.evanhughes@pembrokeshire.gov.uk
www.pembrokeshire.gov.uk
www.sir-benfro.gov.uk



Pembrokeshire County Council Cyngor Sir Penfro

IAN WESTLEY, M.A. B.Eng.(Hons), C.Eng., M.I.Mech.E., M.C.I.B.S.E.
Chief Executive / Prif Weithredwr

KATE EVAN-HUGHES
Director for Children & Schools
Cyfarwyddwr Dros Blant Ac Ysgolion

Pembrokeshire County Council,
County Hall, HAVERFORDWEST,
Pembrokeshire, SA61 1TP

Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, HWLFFORDD,
Sir Benfro, SA61 1TP

Telephone / Ffôn 01437 764551
DX 98295 HAVERFORDWEST

Please ask for
Os gwelwch yn dda gofynnwch am

I bob ymgynghoreion statudol

Annwyl Syr/Madam

Adolygiad o Ddarpariaeth Addysg Uwchradd yn Hwlfordd

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fod Cyngor Sir Penfro, mewn cyfarfod ar 20 Gorffennaf 2017, wedi ystyried y cynnig canlynol:

1. Cau Ysgol Syr Thomas Picton ac Ysgol G Rh Tasker Milward ar 31 Awst 2018;
2. Sefydlu ysgol wirfoddol rheoledig 11-19 cyfrwng Saesneg newydd yn Hwlfordd ar 1 Medi 2018, ar safleoedd yr ysgolion presennol i ddechrau;
3. Y dylid cynnwys dalgylch Johnston a Neyland fel rhan o ddalgylch Ysgol Aberdaugleddau, fel rhan o'r trefniadau derbyn ar gyfer trosglwyddo i ysgol uwchradd ym mis Medi 2018.

Penderfyniad y Cyngor oedd i gymeradwyo'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd.

Cyn dod i benderfyniad, cymerodd y Cyngor Sir i ystyriaeth y sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad statudol, a ymatebion y cynigwyr wedi hynny. Ymhellach, roedd y Cyngor yn fodlon y bydd y cynigion yn mynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd yn yr achos dros newid, h.y.:

- Gwella safonau addysgol ar gyfer dysgwyr ac, yn amodol ar sicrhau'r buddsoddiad cyfalaf priodol
- Mynd i'r afael â lleoedd gwag
- Mynd i'r afael â chyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol.

Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad adeg y penderfynodd Cyngor.

Dylid nodi, dan Adran 54 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, pan fo cynigion yn cael eu cymeradwyo neu eu gwrthod gan awdurdod lleol, y gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynigion at Weinidogion Cymru i'w hystyried:

- Awdurdod lleol arall a effeithir gan y cynigion;
- Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;
- Corff llywodraethu ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol sefydledig, yn amodol ar y cynigion;


We welcome correspondence in Welsh and English, and will respond within a maximum of 15 working days. We will respond in the language in which the correspondence is received (unless you ask us to do otherwise). / Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb cyn pen 15 diwrnod gwaith fan bellaf. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith â'r ohebiaeth a dderbyniwyd (oni bai eich bod yn gofyn i ni wneud yn wahanol).

For a copy in large print, easy-read, Braille, audio, or an alternative language, please contact Pembrokeshire County Council on the number above. / Os am gopi mewn print mawr, fformat hawdd ei ddarllen, Braille, sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar y rhif uchod.

- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig yn amodol ar y cynigion; a
- Sefydliad addysg bellach yr effeithir gan y cynigion.

Byddai angen i gyrrff o'r fath esbonio pam eu bod yn credu bod y penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod lleol yn anghywir.

Yn ffyddlon

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kate Evan-Hughes'.

Kate Evan-Hughes
Cyfarwyddwr dros Blant ac Ysgolion